# Amserlen Penderfyniadau

## Is-bwyllgor Trwyddedu

**I BOB AELOD CYNGOR DINAS CASNEWYDD**

**Atodlen Penderfyniadau a gyhoeddwyd ar 21 Ebrill 2021**

Gwnaeth y Is-bwyllgor Trwyddedu y penderfyniadau canlynol ar 21 Ebrill 2021, a ddaeth i rym ar unwaith.

Cynghorwyr: J Hughes (Cadeirydd), Joan Watkins, Miqdad Al-Nuaimi

---

**LIC PAN 02/21**

**<u>Penderfyniad</u>**

**<u>Cais am Drwydded Safle – What Plus Limited, Chartist Way, Tŷ-du, Casnewydd, NP10 9XJ</u>**

Ystyriodd yr Is-bwyllgor Trwyddedu y cais yn ofalus ynghyd â sylwadau'r preswylydd lleol a chlywodd gan gyfreithiwr yr ymgeisydd. Roedd gan yr Is-bwyllgor Trwyddedu nifer o bryderon ynghylch sŵn, ymddygiad gwrthgymdeithasol a sbwriel posibl yn cael ei gynhyrchu trwy roi'r drwydded safle, fel yr amlygwyd yn sylwadau'r preswylydd lleol.

Nododd yr Is-bwyllgor hefyd nad oedd unrhyw sylwadau wedi'u gwneud gan Awdurdodau Cyfrifol. Roedd hyn yn rhannol oherwydd atodlen weithredu arfaethedig gynhwysfawr a roddwyd fel rhan o gais y safle. Teimlai'r Is-bwyllgor fod yr ymgeisydd yn amlwg wedi elwa o drafodaeth cyn ymgeisio gydag Awdurdodau Cyfrifol a wnaeth arwain at gynhyrchu'r atodlen a'r diffyg gwrthwynebiadau gan yr Awdurdodau Cyfrifol, ac o bosibl gan breswylwyr lleol eraill hefyd.

Ystyriodd y Pwyllgor ganllawiau'r Swyddfa Gartref a'i bolisi ei hun yn ofalus, yn benodol adran 5.3 sy'n nodi:

*Wrth ddelio ag oriau trwyddedu, mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod y gofyniad i ymdrin â phob cais yn ôl ei rinwedd unigol. Serch hynny, er nad yw'r Awdurdod Trwyddedu yn dymuno atal datblygiad parhaus economïau lleol ffyniannus a diogel gyda'r nos ac yn ystod y nos sy'n bwysig ar gyfer buddsoddi a chyflogaeth yn lleol, mae'r Awdurdod o'r farn ei bod yn hanfodol creu cydbwysedd priodol rhwng anghenion economaidd safleoedd trwyddedig a hawliau preswylwyr a busnesau lleol i allu mwynhau rhywfaint o heddwch a thawelwch ar adegau sy'n sensitif i sŵn a hawliau pobl eraill i beidio â dioddef gan bobl yn gwneud sŵn wrth adael sefydliadau economi'r nos yn gynnar.*

Teimlai'r Pwyllgor, gyda'r atodlen weithredu arfaethedig ac yn bwysig ei reoli'n effeithiol, y byddai'r safle yn gallu bodloni cydbwysedd Adran 5.3 o bolisi'r Cyngor ac felly'n hyrwyddo'r 4 amcan trwyddedu.

O'r herwydd, penderfynodd y Pwyllgor roi'r Drwydded Safle, fel y gwnaethpwyd cais amdani, gan gynnwys yr amodau a ganfuwyd o fewn yr atodlen weithredu arfaethedig, ond gofynnodd i ddau amod pellach gael eu hychwanegu at yr atodlen weithredu sef:

1. Pan fydd digwyddiad allanol yn cael ei gynnal, rhaid i'r safle gyhoeddi rhif ffôn uniongyrchol sy'n rhoi mynediad i'r GSD/Rheolwr i alluogi preswylwyr lleol i ddatrys unrhyw faterion neu bryderon sy'n codi o'r digwyddiad.
2. Rhaid i'r GSD/Rheolwr ymgysylltu â phreswylwyr lleol neu grwpiau cymunedol i drafod unrhyw bryderon sy'n codi am y safle pan ofynnir am hynny.

Wrth roi'r Drwydded, roedd yr Is-bwyllgor hefyd am dynnu sylw at bwysigrwydd eithafol rheolaeth briodol bob amser ac ymgysylltu'n rheolaidd â'r gymuned leol. Yn amlwg, os bydd rheolaeth wael yn digwydd, gall pryderon y Pwyllgor a'r preswylydd lleol ddod yn wir gan arwain yn y pen draw at y Drwydded yn cael ei hadolygu. Mae disgwyliadau clir iawn drwy roi'r drwydded nad yw'r safle'n achosi niwsans i'r rhai sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal leol.

## Ymgynghoriad

**Wedi'i weithredu erbyn:** 23 Ebrill 2021
**Amserlen Weithredu:** Ar unwaith

**Gwyliwch y Digwyddiad Byw**

https://youtu.be/RB5qUVCVdhE